

YSTYRIED RHYW A PHRIODAS O SAFBWyNT DUW

Nodyn i'r siaradwr:

Agwedd wydroedig at ryw a phriodas yw un y byd; mae agwedd Jehofah yn gytbwys. Er mwyn gwir hapusrwydd, rhaid inni wrth safbwynt Jehofah

RHODDwyD CYCHWYN PERFFAITH I RYw A PHRIODAS YNG NGARDD EDEN (6 mun.)

Heddiw, rhoddir pwyslais mawr ar ryw a phriodas; yn aml agwedd wydroedig a gyflwynir (*g86 12/22 8*)

Agwedd pwy sydd gennym *ni?* Ai un a dderbyniwyd gan gymdeithion ysgol, cydweithwyr, llawlyfrau rhyw?

Rhesymol yw ystyried yn fanwl safbwynt yr Un a roddodd gychwyn i ryw a phriodas

Gosododd Jehofah ryw a phriodas yn y golau priodol pan roddwyd cychwyn i'r teulu dynol

Gosodwyd y cwpl cyntaf mewn priodas anrhydeddus, gyda chymeradwyaeth Duw (*Gen 2:24*)

Deddfwyd perthynas rywiol naturiol rhwng gŵr a gwraig (*Darllen Genesis 1:27, 28*) (*rs 367*)

Iawn ystyried y pwnc hwn ag urddas; mae'r Beibl yn cyflwyno safbwynt Duw ar ryw a phriodas yn agored

Mae'r hanes yn y Beibl yn ei gwneud yn amlwg fod Duw yn edrych ar berthynas rywiol naturiol o fewn priodas yn rhywbeth cymwys

Byddai priodas yn seiliedig ar safbwynt Duw, yn ôl ei safonau, yn dod â llawer bendith a budd

Nid rhyw oedd yr unig beth, holl-bwysig, er y gallai cymheiriad atgynhyrchu a hefyd dderbyn plaser ynddo

'Roeddynt i fwynhau cyfeillach, sgwrs, a nodweddion cyflenwol y naill a'r llall (*Gen 2:18; fl 55*)

Gallent ennill llawer o bleser drwy roi y naill i'r llall a helpu ei gilydd

Sicrhâi hyn gefndir addas—yn gyfreithiol, yn gymdeithasol, ac yn foisol—i fagu plant (*fl 85*)

Gallech yn rhesymol ofyn: 'A osododd Duw yn ei Air unrhyw gyfyngiadau, neu ffiniau, yn arweiniad inni?'

Beth am i ni edrych i mewn i agweddau gwahanol sy'n ymwneud â phobl briod a di-briod fel ei gilydd

MAE CYNGOR DUWIOL YN HELPU SICRHAI LLWYDDIANT PRIODAS (16 mun.)

Darparodd Jehofah, a roddodd alluoedd cenedlol i fodau dynol ac a sefydlodd priodas, gyngor ynglŷn â'r rhain (*g86 7/8 9-10*)

Gan mai cariad yw Duw, mae ei reolau a'i gyngor ynglŷn â rhyw a phriodas yn adlewyrchu'i gariad

Fel Creawdwr priodas a rhyw, fe wŷr beth sydd er ein lles

'Rydym yn amlygu cefnogaeth i frenhiniaeth dwyfol drwy dderbyn ei arweiniad cariadlon

Dengys y Beibl y dylai perthynas rywiol rhwng cymheiriad adlewyrchu cariad anhunanol

'Ddylai gŵr a gwraig ddim meddwl am eu teimladau eu hunain yn unig (*Darllen 1 Corinthiaid 7:3, 4*)

Pan fo gŵr a gwraig yn gwir ofalu rhoi sylw i'w gilydd, gellir diwallu gwahaniaethau mewn anghenion a dyheadau corfforol, gan ddod â boddhad sylweddol i'r ddau

Adlewyrchwyd agwedd ystyriol hefyd wrth i Ddeddf Moses wahardd perthynas rywiol adeg misglwyf (*Lef 20:18; w72 575-6; it-2 372*)

Cynorthwyodd hyn wŷr i fod yn feddylgar ynglŷn â chylchredau a theimladau'r wraig; hefyd fe enynnodd barch at waed

Anelir Colosiaid 3:5, 6 at bobl briod a di-briod (*w85 4/15 16 ¶15*)

Dylai Cristnogion osgoi eilunaddoli chwant rhywiol (*g86 12/22 8*)

Mae Jehofah yn cyfyngu perthynas rhywiol person priod i gymar dyn neu ddynes, a hawdd deall pam

Hyd yn oed cyn rhoi'r Ddeddf, sylweddolodd Joseff fod godineb yn 'bechu yn erbyn Duw' (*Gen 39:9*)

O dan y Ddeddf, gwaherddid godineb, a dienyddio'n gosb am droseddu (*Ex 20:14; Deut 22:22*)

Mae'r Ysgrhythurau yn annog Cristnogion i gadw rhyw a phriodas hefyd yn anrhydeddus

Mae godineb yn ennyn dig Duw ac yn niweidio'r sawl sy'n euog ohono (*Darllen Hebreaid 13:4*) (*g83 2/22 8*)

Mae'r geiriau Groeg a Saesneg am "odineb" yn cyfleu'r ystyr llygru neu halogi (*w72 767*)

Mae'r ffaith fod Duw yn condemnio godineb yn rheswm anorfod i lwyrgadw rhagddo (*Mal 3:5*)

Rheswm ychwanegol dros ymgadw rhag godineb ydi fod person felly'n osgoi dod â thristwch i'w ran ei hun ac i ran eraill (*Darllen Diarhebid 6:27-29, 32*) (*g86 7/8 8-9; hp 71; w88 3/15 17 ¶18*)

Mae'n chwalu hyder, yn tanseilio heddwch priodasol, yn arwain at ysgaru

Mae godineb yn aml yn niweidio'r plant drwy ddinistrio teulu unedig

Ei ganlyniadau'n aml ydi plant anghyfreithlon, clefydau a drosglwyddir yn rhywiol, a chydwybod sydd mewn ing

Yn sicr, mae un sy'n godinebu yn ddisynnwyr, ac "yn ei ddifetha'i hun" (*rs 188; g83 2/22 8*)

Ehangiad ar gariad anhunanol yn ymwneud â pherthynas rhywiol o fewn priodas yw sylweddoli y gellid cenedlu plentyn â chanddo hawl i fywyd

'Does dim cyfeiriad Ysgrhythurol fod rhwymedigaeth arnom i briodi a chael llawer o blant, felly penderfyniad y cwpl yw a ddylid rheoli maint teulu ai peidio (*w89 6/15 29*)

Mae plentyn heb ei eni sy'n datblygu yn y groth yn fywyd ac yn werthfawr yng ngolwg Duw (*Ex 21:22, 23; tp 153-4*)

Byddai erthylu un felly'n fwriadol yn gyfystyr â chymryd bywyd; yn sicr byddai hynny'n llidid Duw

Hyd yn oed pe bai meddygon neu berthnasau'n annog erthylu, byddai Cristion yn dilyn ffordd Duw o ystyried pe-thau (*w75 191-2*)

Mewn priodasau lle cenedlir plentyn, hyd yn oed yn anfwriadol, mae gan rieni'r cyfle i hyfforddi'r plentyn i barchu'n

Rhoddwyr-Bywyd a chyda'r gobaith am fywyd tragwyddol

'Rydym wedi gweld fel mae safbwynt Duw ar briodas a rhyw yn cyfrannu at lwyddiant priodasol, ond beth am dor-priodasau? Beth yw safbwynt Duw ar ysgariad?

AI SAFBWyNT DUW AR YSGARIAD YW EICH SAFBWyNT CHI? (8 mun.)

Bwriadodd Duw i gymheiriaid aros yn unedig fel un cnawd (Mth 19:4-6; w88 5/15 4-7)

Dywedodd Jehofah ei fod yn casáu ysgariad (Mal 2:14-16; w81 7/1 17-22)

Dim ond un sail caniatadwy gyflwynodd Iesu ei hun drosto i Gristnogion (Darllen Mathew 19:9)

Y gair Groeg a gyfieithir “puteindra” (*fornication*) yw *por-nei'a* (anfoesoldeb rhywiol dybryd) (w83 3/15 30-1)

Os yw cymar yn euog o anfoesoldeb dybryd, caniateir ysgariad Ysgrythurol i'r un dieuog

'Does dim rheidrydd ar y cymar dieuog i ysgaru; gallai ddangos trugaredd a maddeuant (*it-1* 1147)

Dim ond ysgariad seiliedig ar *por-nei'a* fyddai'n rhyddhau un dieuog i ailbriodi

Gwerthfawr yw coflo safbwynt Duw ar ysgariad, oherwydd mae'n amddiffyn inni

Byddai gwerthfawrogi difrifoldeb priodas ac ysgariad yn ein helpu i wneud i briodas lwyddo

MAE SAFBWyNT DUW AR RYW YN HELPU'R DIBRIOD HEFYD (13 mun.)

Darparodd Jehofah yr ysfa rywiol i weithredu'n addas yn ei lle

Gan fod pobl ifanc a phobl dibriod yn teimlo'r ysfa hon, addas yw inni ystyried safbwynt Duw ar buteindra, gwrywgydiaeth, a mastyrbio, pethau cyffredin ymhlith llawer o ieuencid

Mae Duw yn gwahardd puteindra yn benodol (Darllen 1 Thesalonaiad 4:3-5)

Mae person dibriod sy'n puteinio yn gwneud llawer o ddrwg iddo'i hun ac i eraill (*yp* 181-8)

Mae llawer yn teimlo os yw'r ddwy ochr yn fodlon, na wneir unrhyw niwed—nid felly o gwbl!

(Siaradwr: Gellid cyflwyno dyfyniadau *divedd* ar AID (Afiechyd Imiwneidd Diffygiol), afiechydon eraill a drosglwyddir yn rhywiol, anghyfreithlondeb)

Mae puteiniwr yn gwahardd hawl y person arall i gael cychwyn glân i briodas

Mae ffordd gwir gariad at gymydog a Duw yn atal cwrs niweidiol puteindra

Gellir cael cydwybod lân a 'pharch' gerbron y Creawdwr (1Thes 4:4)

Yn y Beibl gall “puteindra” gynnwys gwrywgydiaeth; mae Duw yn rhybuddio rhag hwnnw hefyd (*tp* 144-6)

Achosodd arfer diraddiedig gwrywgydiaeth yn Sodom a Gomorra 'gŵyn fawr' (Gen 18:20; 19:23, 24)

Oherwydd 'pechod drwg iawn' dinistriodd Duw y dinasoedd

Dywed y Beibl yn eglur na chaiff y “rhai sy'n ymylgru â'u rhyw eu hunain” etifeddu Ei Deyrnas (1Cor 6:9, 10)

Dylem fod yn ddiolchgar fod Duw yn rhoi ei safbwynt ef inni fel y medrwn weithredu'n ddoeth

Os bu i berson buteinio, gall adfer ei ffordd o feddwl a rhoi'r gorau iddi, fel y gwnaeth eraill a drôdd yn Gristnogion (1Cor 6:11; *g78* 5/8 27-8; *w74* 486-9)

Mae medru dangos hunan-ddisgyblaeth Cristnogol hefyd yn helpu i osgoi hunanddifriô (*yp* 198-211; *w85* 4/15 16-18)

Mae rhai wedi gwneud camgymeriad wrth ystyried mastyrbio fel math ar ollyngfa ddiniwed i'r ysfa rywiol

Drwy anghefnogi “nwyd trachwant,” mae'r Beibl yn helpu Cristnogion i osgoi arfer mastyrbio neu ei dorri (1Thes 4:5)

Problem feddylol yn hytrach nag un gorfforol ydyw

Wrth i berson ddyysgu disgyblu'i ffordd o feddwl, gan osgoi oedi gyda syniadau cnawdol, gall oresgyn y problem

Mae gweddïo ar Dduw a darllen y Beibl wedi helpu (Phil 4:8)

Mae person sy'n goresgyn neu'n osgoi hunan-ddifriô yn adlewyrchu ei fod yn derbyn safbwynt Duw ac yn ei ddilyn

Doeth fyddai i rieni drafod y materion hyn gyda'u plant ar eu tyfiant, gan drosglwyddo safbwynt Duw

Gellir defnyddio erthyglau yn *The Watchtower* ac *Awake!* yn ogystal â chyhoeddiadau eraill; maen' nhw wedi helpu llawer (*g65* 6/8 16-19; *g65* 7/8 16-19; *yp* 198-211, 225-35, 252-60; *g90* 1/22 22-4; *g90* 2/8 13-15)

Peidiwch ag oedi nes bydd y plant wedi derbyn safbwynt y byd gan gymdeithion ysgol

Bydd cael safbwynt Duw yn cael effaith ar heddych a hapusrwydd y plant a chwithau

GELLIR CAEL HEDDWCH A HAPUSRWYDD O GAEL SAFBWyNT DUW (2 fun.)

Gallwn ddisgwyl gwobr heddych a hapusrwydd o gael safbwynt Duw (Darllen Salmau 19:9-11)

Jehofah wŷr beth sydd er ein lles, ac yn gariadlon mae wedi darparu y safbwynt cywir ar ryw a phriodas

Mae derbyn hyn a'i ddilyn yn ein helpu i osgoi poenau, tristwch, a phroblemau

Cawn ein boddhau gan hunan-ddisgyblaeth, cymar diwair a chariadus, a hyder cael byw yn ôl safbwynt Duw am byth (Glynwch yn glôs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir)